# Taflen Wybodaeth i Gleifion

# Triniaeth Atgyweirio Llawr y Pelfis

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth berthnasol i chi am y lawdriniaeth. Os teimlwch nad yw'r daflen hon wedi ateb eich ymholiadau, mae croeso i chi ofyn i aelod o'r staff pan fyddwch yn dod i mewn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu'r staff am unrhyw alergeddau neu unrhyw gyflyrau meddygol sydd gennych.

Gwneir llawdriniaeth atgyweirio pan fyddwch yn dioddef prolaps o rhyw fath sy'n ymwneud â wal y wain. Gall hyn fod gyda prolaps y groth neu peidio. Gwneir toriad yn y wain ac mae cyhyrau llawr y pelfis yn cael eu tynhau.

**Cymhlethdodau:-**

Mae llawdriniaeth atgyweirio fel arfer yn un syml gyda siawns isel o gymhlethdodau. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau ddigwydd gydag unrhyw lawdriniaeth gan gynnwys adwaith annisgwyl i'r anesthetig, gwaedu gormodol neu ddatblygu clot gwaed, fel arfer mewn gwythïen yn y goes (thrombosis gwythiennau dwfn, DVT) neu'n anaml yn yr ysgyfaint (emboledd ysgyfeiniol). Mae'r cymhlethdodau sy'n benodol i lawdriniaethau atgyweirio yn cynnwys - Anaf i'r groth, y coluddyn, y bledren neu bibell waed. Yn anaml iawn, efallai y bydd yn rhaid atgyweirio'r anaf trwy wneud toriad yn y bol. Gall cyfathrach boenus fod yn gymhlethdod ar ôl y llawdriniaeth.

**Beth i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth:-**

- Byddwch yn cael hylif mewnwythiennol hyd nes y byddwch yn gallu yfed.
- Bydd gennych gathetr i wagio'ch pledren - efallai y bydd hwn yn aros yn ei le am 24 awr neu fwy.
- Fel arfer bydd gennych becyn yn y fagina i roi pwysau ar y man y gwnaethpwyd y lawdriniaeth am tua 24 awr er mwyn atal unrhyw waedu.
- Byddwch yn cael pigiad bob dydd er mwyn ceisio atal unrhyw glotiau gwaed.

Byddwch yn cael meddyginiaeth i leddfu poen.
Nid yw'n anarferol methu ag agor eich coluddion am ychydig ddyddiau ar ôl y llawdriniaeth.
Os yw hyn yn achosi anghysur byddwch yn cael meddyginiaeth i'ch helpu.

Pan fydd y cathetr yn cael ei dynnu mae'n bwysig iawn eich bod yn pasio wrin yn rheolaidd. Os na allwch wagio'ch pledren yn iawn efallai y bydd yn rhaid i chi fynd adref gyda'r cathetr. Anaml iawn y mae hyn yn digwydd.

**Cyngor ar ôl llawdriniaeth:-**

Byddwch yn teimlo'n flinedig pan fyddwch chi'n mynd adref - peidiwch â gwneud gormod. Cynyddwch eich gweithgareddau dyddiol yn raddol. Gwrandewch ar eich corff.

Bydd angen i chi osgoi codi unrhyw beth trwm gan fod hyn yn rhoi pwysau ar y gwaith atgyweirio a gallai ei wanhau.

Efallai y byddwch yn cael rhywfaint o waedu o'r wain neu redlif am 10 -14 diwrnod.

Er mwyn osgoi rhwymedd, bwytwch ddigon o ffibr yn eich diet ac yfwch ddigon o ddŵr.

Bydd angen i chi osgoi cyfathrach rywiol am tua 6 wythnos.

Ceisiwch osgoi gyrru nes eich bod yn teimlo y gallwch stopio ar frys heb unrhyw boen.

Bydd pryd y byddwch yn gallu dychwelyd i’r gwaith yn dibynnu ar y math o waith yr ydych yn ei wneud - gall amrywio o 6-12 wythnos.

Cofiwch wneud ymarferion llawr y pelfis drwy gydol eich oes.

Efallai y byddwch yn cael apwyntiad i gael eich gweld yn yr adran gynaecoleg cleifion allanol ymhen 6-12 wythnos.

Cysylltwch â'ch meddyg os oes gennych y symptomau canlynol:-

- Gwaedu trwm o’r wain
- Rhedlif annymunol o'r fagina
- Poen difrifol yn y fagina neu'r abdomen
- Dolur rhydd neu chwydu
- Unrhyw anhawster wrth basio wrin.
- Tymheredd uchel

Gall prolaps ddigwydd eto mewn 15-20% o achosion. Mae'r risg y bydd prolaps yn digwydd eto’n uwch os ydych dros eich pwysau, os ydych yn dioddef o beswch cronig (a achosir gan ysmygu fel arfer), os ydych chi’n rhwym neu gall ddigwydd os ydych yn gwneud tasgau sy’n gofyn i chi cynnal eich pwysau’n rheolaidd.

Ysbyty Brenhinol Gwent, Ward B7 Gorllewin:- Ffôn. Rhif:- 01633 - 234579

Ysbyty Brenhinol Gwent, Ward B 7 Dwyrain:- Ffôn. Rhif:- 01633 - 238722

**Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) Rhif ffôn 01443 802353**
(caiff y linell ffôn ei staffio tan 1pm Llun-Gwener)

Ysbyty Neuadd Nevill, Ward 3/2:-
Rhif Ffôn: 01873 - 732410 / 01873 – 732411

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**